Rhif 16 | Awst 1997

# Yr Hen Wlad

## At Gymry Patagonia

**Cyfarchwn chwi y tro hwn o ganol tywydd poeth - sy'n barhad o'r tywydd a gaed yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Y Bala lle cawsom gyfarfod â rhai ohonoch.**

**'Roedd 20 o Wladfawyr yng Ngŵyl y Glaniad eleni, nifer ohonynt yn aelodau o Gôr Cymysg y Gaiman a gafodd groeso brwd ar hyd a lled Cymru. Cawsom gyfle hefyd i gyfarfod â chwmni arall o'r Wladfa a chael "te bach" a sgwrs ym Meddgelert. Hefyd Mary Vaughan Jones, Benja, Eulalia, Teresa a Margarita mewn *asado* yng nghartref Arwel ac Eryl Humphreys yn Y Cilgwyn, Carmel, ger Caernarfon.**

**Cafwyd ymateb da i'r gystadleuaeth llunio geiriau. Gan nad oeddem wedi nodi yn ddigon eglur mai *unwaith yn unig* y dylid defnyddio'r llythrennau anfonodd Aira Hughes 99 o eiriau a May Williams de Hughes 74 o eiriau - ardderchog yn wir! OND hwy ar y cyd sy'n ennill gan iddynt gael 49 o eiriau yn ôl gofynion y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau calonnog i'r ddwy gan mai 37 o eiriau yn unig a lwyddodd y Golygyddion i'w llunio!**

**Llongyfarchiadau hefyd i Irma Hughes de Jones am ddod yn fuddugol yn yr Eisteddfod am ei hysgrif ar Y Wladfa Heddiw**

*Golygyddion: Guto a Marian Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU*

---

GEIRIADUR

Wedi'r cywain, onid yw'r caeau ŷd
Yn wag, a'r ysgubau
O rawn aur i ni i'w hau
Yn bur mewn ysbuboriau?

*W.J. Williams, Cefnddwysarn, Y Bala.*
(Yr englyn buddugol yn Y Bala eleni)

Englyn arall yn y gystadleuaeth oedd hwn:

Â mi mor ansicr o'm hiaith, hwn heddiw
yw 'nyddiol gydymaith;
yn nhŷ nain, a hi'n uniaith,
hwn, ddoe, a fyddai'n ddi-waith.

*Ffugenw: Ap Logos*

# Coron i Ynys Môn



*Llun: Daily Post*

Cen Williams o Lanfaelog, Ynys Môn, gafodd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Y Bala, eleni. Dyma'r tro cyntaf erioed iddo gystadlu.

"Branwen", sef y ferch y ceir sôn amdani yn yr hen chwedlau Cymreig a elwir *Y Mabinogi* oedd y testun. Dywedodd Nesta Wyn Jones (un o'r beirniaid) fod y bardd "wedi creu cadwyn o gerddi syml ond trawiadol". Barn Cen Williams ei hun yw fod y bryddest yn cymharu Branwen i'r hyn mae merched yn ei ddioddef heddiw.

Dyma bennill o'r bryddest:

Heddiw yma'n y gegin
cras yw crawc amser,
araf a herciog fel cigfran ar droed.
Brath ei llafnbig yw bonclust
y cigydd, a minnau'n ysglyfaeth,
yn dioddef y rhwygo a'r darnio
ac yn noeth fel gwraig i'r ymosodiadau.

# Huna, huna...

'Roedd Gwasanaethau Brys Môn yn chwilio ym mhobman am fachgen bach a ddiflannodd o wersyll carafanau nos Fercher.

Bu deg heddwas, bad achub Caergybi... a hofrennydd o R.A.F. Fali yn chwilio'r gwersyll a'r creigiau cyfagos am Michael Brown, 5 oed. Wedi awr o chwilio brwdfrydig daethpwyd o hyd i Michael yn cysgu'n braf o dan ei wely.

*O'r Herald, Awst 9 1997.*

# Gradd i bawb o idiots y byd!

Dyna bennawd i lythyr a gyhoeddwyd yn *Yr Herald*, Awst 2 1997. Fel hyn y dywed Edward Lewis Davies (B.A. go iawn), Trefaldwyn, yn y llythyr hwnnw wrth anghydweld â Goronwy Huws sydd yn erbyn unrhyw rwystr i fyfyrwyr fynd i goleg. Meddai:

**"..... nid ei gwneud yn haws i fyfyrwyr fynd i goleg sydd ei eisiau ond ei gwneud yn anos....**

**Nid yw ond synnwyr cyffredin dywedyd nad oes gwerth o gwbl anfon disgyblion o ail a thrydedd gradd i golegau a phrifysgolion lle maen nhw'n gwastraffu eu hamser eu hunain ac amser yr ysgolheigion sy'n eu dysgu.**

**Llawer rheitiach fyddai iddynt fod yn agor ffosydd; codi tai, cadw siop neu weini ar hen bobol...**

**Y mae gradd bellach mor gyffredin ag oedd tri lefel A bymtheng mlynedd yn ôl ac mae gan bob rhyw Ddic lythrennau tu ôl i'w enw - a hyd yn oed Dr. o'i flaen...**

**Y mae graddau coleg wedi eu dibrisio i'r fath raddau, waeth i chwi eu rhannu nhw ddim yn siop Kwiks efo tri phaced o fiscits a'u hargraffu ar bapur Rizzla."**

---

**Englyn Ysgafn buddugol Yr Eisteddfod:**

*Testun:* **Englyn Cerdyn Post gan rywun ar wyliau**

**Gair ar hast. Tywydd yn grêt. Fi a Wil**
**Ers nos Fawrth ger Barnet**
**Yn aros mewn rhyw garet,**
**Ond 'rwy'n fodlon. Cofion. Kate.**

*Dai Rees Davies, Rhydlewis,*
*Llandysul, Ceredigion*

## Y Wisg Ddisgleirwen Olau



Llun: *Yr Hen Wlad*

Luned Gonzáles o'r Wladfa ar ôl derbyn Urdd Derwydd Er Anrhydedd gan Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Y Bala. Dyma'r anrhydedd uchaf y gall yr Eisteddfod ei rhoi.

# Medal i Eifionydd



D.G. Jones (a adwaenir fel Selyf) o Garndolbenmaen yn Eifionydd, a gafodd "Fedal Syr T.H. Parry-Williams" eleni, a hynny am ei gyfraniad yn hyfforddi plant a phobl ifainc i ganu cerdd dant.

Un o Langybi, o fewn rhyw 6 milltir i Bwllheli, ydyw yn wreiddiol a'i briod Vera wedi ei geni a'i magu yn Garndolbenmaen.

Bu'r ddau yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 1952 pan ddaethant yn drydydd ar y ddeuawd cerdd dant yn ogystal ag i Vera ennill ar yr unawd cerdd dant a Dafydd ei hun yn dod yn gyntaf ar yr unawd alaw werin. Ef hefyd oedd sylfaenydd Parti Cerdd Dant Meibion Dwyfor adeg Eisteddfod Bro Dwyfor, Cricieth 1975.



Eleri P. Griffith

## Llythyr o Fangor

Annwyl Olygyddion

Tra oeddwn yn Y Wladfa eleni efo criw o Gymry dan arweiniad Cathrin Williams ac yn aros efo Hawys Davies yn Nhrelew aeth dwy ohonom am dro i Punta Tombo i weld y *pingüinos...*

Fel 'roedd Sue Roberts o Bethel (ger Caernarfon) a minnau ymhlith tua dwsin o bobl yn y bws, 'roedd rhai yn siarad Sbaeneg, eraill Almaeneg, ac yn ein hymyl 'roedd gŵr a gwraig yn siarad Ffrangeg.

Yn sydyn, er mawr syndod i mi, trodd y gŵr ataf gan ddweud:

"'Rydych chi'n siarad Cymraeg!"

"Ydw," meddwn. "O ble 'rydych chi'n dod?"

"O Ganada," atebodd, "ond cyn i mi fynd yno 'roeddwn yn byw yng Nghymru - ym Mangor."

"Dyna lle mae fy nghartref i," meddwn.

"'Roeddwn i'n byw ym Mhenrhosgarnedd ger Bangor," meddai wedyn.

"'Rwyf innau'n byw ym Mhenrhosgarnedd," meddwn innau.

"Arferwn fyw yn Rhif 9, Rhos Uchaf," ychwanegodd wedyn.

"A minnau," ychwanegais, "yn Rhif 12, Rhos Uchaf!"

Methwn â choelio fy nghlustiau ond yn sydyn cofiais fod cymydog, wedi sôn wrthyf am ŵr oedd wedi ỳmfudo i Ganada ac er nad oeddwn yn ei adnabod dywedais wrth y gŵr dieithr fy mod yn meddwl mai Paul oedd ei enw.


"Ie," meddai, "Paul Birt."

Sais yw Paul o Dde Lloegr - wedi ymddiddori yn y Gymraeg, wedi astudio'r iaith ac yn ei siarad yn rhugl. Daethai i Gymru a gweithio yn y Brifysgol ym Mangor fel cyfieithydd. Erbyn hyn mae'n briod â merch o Quebec ac yn Athro Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Toronto.

'Roedd y ddau yn treulio dau fis yn Nhrevelin ac yntau yn gwneud gwaith ymchwil ar ddyddiaduron John Daniel Evans. 'Roedd y ddau yn ymddiddori yn y bywyd gwyllt a daethant draw i ardal Trelew am ychydig ddyddiau i grwydro'r arfordir.

Yn gywir
Eleri P. Griffith

# Anrhydeddu



Llun: *Yr Herald,* Awst 2 1997

Y Dr. Meredydd Evans, Y Prifardd Gerallt Lloyd Owen a Phyllis Kinney y cyflwynwyd iddynt Gymrodoriaeth Er Anrhydedd gan Goleg Prifysgol Cymru, Bangor, yn ddiweddar.

# Cadair i Aberteifi



Ceri Wyn Jones o Aberteifi a gafodd Gadair Eisteddfod Y Bala. Cafodd ganmoliaeth hael am ei Awdl i "Gwaddol".

Cerdd drist iawn ydyw am hunan-laddiad ffermwr ifanc. Meddai Jâms Niclas, oedd yn un o'r beirniaid: "Mae'r bardd yn ein syfrdanu dro ar ôl tro wrth lunio darluniau manwl ac iasol......"

Fel hyn y disgrifir y neges a adawodd y ffermwr ifanc i'w fam:

> Naddodd mewn 'sgrifen eiddil,
> ofn byw ar hyd cefn y bil,
> a rhoi, mewn brawddeg traed brain,
> y gwae rhy drwm i'w gywain;
> y gwae hir mewn saith geiryn -
> "Mam, yn y wir, sa'i moyn hyn.".......

# Y Fedal Ryddiaith



Llun: *Yr Hen Wlad*

Angharad Tomos, 39 oed, o Ben-y-groes, Gwynedd, a enillodd y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod, a hynny am yr eildro. Cawsai'r Fedal o'r blaen chwe blynedd yn ôl yn Eisteddfod Bro Delyn, Yr Wyddgrug, am ei chyfrol *Si Hei Lwli.*

Ymddengys ei bod yn gystadleuaeth galed gan fod pump arall o'r cystadleuwyr yn haeddu cael cyhoeddi eu gwaith.

Mae hi bellach yn awdur amser llawn a cholofn o'i heiddo yn ymddangos yn wythnosol yn *Yr Herald.*

Y gystadleuaeth oedd cyfansoddi cyfrol o ryddiaith greadigol a lluniodd hithau nofel yn dwyn y teitl *Wele'n Gwawrio.*

---

**Mae'r *logo* uchod yn adnabyddus ar hyd a lled y byd a Chwmni Laura Ashley - a gychwynnwyd yng Nghanolbarth Cymru tua deng mlynedd ar hugain yn ôl - yn cyflogi rhwng saith ac wyth gant o weithwyr yng Nghymru yn unig. Mae'r ffatrioedd i'w gweld yng Nghaernarfon, Gresffordd, Y Drenewydd, Croesoswallt a Charno.**

**Nid yw newyddion y dyddiau hyn yn edrych yn dda ac ofnir y caiff rhai o'r gweithwyr eu diswyddo. Bydd hyn yn ergyd drom i'r ardaloedd gwledig lle lleolir y ffatrioedd.**

# Englyn??

Yn y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn *Golwg* mae'r Prifardd Dic Jones yn dyfynnu llinell gyntaf y pennill (y credai rhywrai ei fod yn englyn) a glywsai yn ystod Eisteddfod Y Bala, 1967. Dyma'r pennill yn llawn a chofiwn i ninnau ei glywed hyd yn oed cyn hynny:

**Y Fynwent**

Yma mae'r meirw yn byw - yma
Er gogoniant Duw:
Tsipins a cherrig mân
A phobol yn cerdded yn ôl ac ymlân.

# Tybed a ddaw?

Methiant fu ymdrech y Blaid Lafur i gael Senedd i Gymru yn 1979 ac nid annisgwyl mo hynny pan gofiwn nad oedd ei harweinydd, Neil Kinnock, o'i phlaid.

Bydd cyfle unwaith yn rhagor, pan geir Refferendwm ar Fedi 18 eleni.

"Cynulliad" y'i gelwir y tro hwn - fydd heb lawer o rym yn ôl rhai - a Tony Blair, y Prifweinidog presennol, ac aelodau eraill o'r Blaid Lafur - ar wahân i un neu ddau - yn frwd o'i blaid.

Mae'r "Papur Gwyn" sy'n manylu ar ddull a gallu'r "Cynulliad" wedi ei gyhoeddi ac aelodau Plaid Cymru yn gofidio na fydd ganddo gymaint o rym â'r Senedd a gynigir i'r Alban.

Mae pawb yn ffyddiog y gwnaiff y Refferendwm am "Senedd" lwyddo yn yr Alban a gobeithiwn i hynny - a fydd wythnos o flaen Cymru - fod yn hwb i fwyafrif y Cymry hefyd ddweud "Ie" dros y Cynulliad.


# Y daith hirfaith hon

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gefnogol iawn i'r ymgyrch am y Cynulliad (mewn gobaith am Senedd efo rhagor o rym ryw ddydd), ac aelodau'r Gymdeithas ar hyn o bryd yn teithio o'r Gogledd - ar droed - o leiaf ugain milltir y dydd gan anelu am Gaerdydd erbyn Awst 23.

---

Cas gŵr na charo'r wlad a'i maco. (Dihareb)

# Y Brenin Arthur



Llun: *Y Cymro*

Y mae gŵr o Farnborough yn mynnu mai ef yw'r Brenin Arthur.. ac mae wedi newid ei enw o Brian Coombes i Arthur Pendragon Cymerwyd ei gleddyf a'i ddagr oddi arno saith mis yn ôl pan gafodd ei arestio yn Sgwâr Trafalgar yn Llundain.


Ond cafodd Arthur Pendragorn, 43 oed, ei gleddyf - Caledfwlch - yn ôl ddydd Mercher diwethaf wedi i farnwr mewn llys gael ei argyhoeddi fod Mr Pendragon yn dderwydd o'r iawn ryw.

"Yr ydw i yn teimlo yn awr fy mod wedi fy nilladu yn gyflawn unwaith eto. Fi yw ceidwad y cledd.....y mae wrth fy ochr hyd yn oed pan wyf yn cysgu'r nos. Fi yw Arthur yr ugeinfed ganrif," meddai. Ond derbyniodd y Barnwr Stephen Robbins mai i ddiben seremoniol yr oedd y cleddyf yn ei feddiant.

O'r *Cymro,* Tachwedd 12 1997

# Ffilmio nofelau

Dangoswyd tair ffilm wedi eu seilio ar nofelau Cymraeg yng Ngŵyl Ffilm Aberystwyth, Tachwedd 14-23.



Begw: Anwen Haf Ellis yn Y Mynydd Grug
Llun: Y Cymro

Mae *Y Mynydd Grug* yn seiliedig ar *Te yn y Grug* (Kate Roberts) ac yn dilyn blwyddyn ym mywyd Begw, merch 8 oed sy'n byw yn Sir Gaernarfon ar ddechrau'r ganrif.

Y ddwy ffilm arall yw *Tylluan Wen* (Angharad Jones) a *Pum Cynnig i Gymro* (John Elwyn Jones).

# O'r Wladfa

'Roedd ysgolion Cymru wedi gwirioni efo'r myfyrwyr a ddaeth o'r Wladfa i ddilyn *Cwrs Hyfforddi Tiwtoriaid y Gymraeg* dan nawdd y Swyddfa Gymreig a'r Cyngor Prydeinig, ym mis Hydref a Thachwedd, sef: Alicia Picón (Trelew); Vilma Eleri Roberts (Esquel), Juan Carlos Davies - "Siôn" (Gaiman); Caren Jones (Gaiman), Nivia Owen De Burgoa (Dolavon) a Nanci Jones (Rawson).

Yn dilyn y *Cwrs Newyddiaduraeth* am gyfnod o fis yr oedd Rebeca Henry (Gaiman) a Mario Jones (Trevelin).



Llun: *Yr Hen Wlad*

Yn y llun mae Nanci Jones (Rawson) a ddaeth yn ffrind mynwesol i blant Ysgol y Groeslon ac Ysgol Dyffryn Nantlle ac a wnaeth argraff arbennig iawn ar yr athrawon.

# Cowboi

Eleni, am y tro cyntaf er pan sefydlwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanaelhaearn 23 mlynedd yn ôl, nid oedd neb wedi cynnig cadair yn wobr.

Ond daeth Ifan Hughes, perchennog y garej, i'r adwy. "'Rwyf am deithio ar gefn fy meic o Lanaelhaearn i Gaernarfon ac yn ôl ar Hydref 11, ac am godi arian ar y ffordd," meddai "ac 'rwyf am wisgo amdanaf fel y cowboi enwog Butch Cassidy."

Erbyn hyn codwyd £700 o arian a bydd cadair hardd yn wobr i fardd buddugol Eisteddfod Llanaelhaearn.

# Yng Nghlust y Teleffôn


**Clywsom**

- fod Cintia Jones (merch Y Bonwr a'r Fns Norris Jones, El Maiten) wedi priodi Steven Jones (mab y Bonwr a'r Fns. Eifion Jones, Dinbych) yn ddiweddar ac yn cartrefu yng nghyffiniau Llundain.
- fod Y Bonwr Tommy Davies, Hyde Park, wedi dathlu pen ei flwydd yn 90 oed yn ddiweddar.
- yr agorwyd y Llyfrgell Gymraeg yn Esquel ar Hydref 25.
- fod Owen Tudur Jones o Ddyffryn Camwy wedi ennill cadair Eisteddfod y Wladfa am yr eildro.
- mai un o'r pethau gorau a glywodd Aur Roberts, Llanuwchllyn, erioed oedd côr ieuenctid o Drelew dan arweiniad Oscar Perez yn canu trefniant Clydwyn ab Aeron Jones o "I bob un sy'n ffyddlon" yn Eisteddfod y Wladfa eleni. Cafodd wefr hefyd ar ddiwedd y gystadleuaeth pan ganodd y tri chôr gyda'i gilydd (Trelew, Gaiman ac Esquel).
- fod dau ffarmwr ifanc wedi cyd-deithio efo Aur Roberts i'r Wladfa ac yn treulio dau fis yna, sef Geraint Rowlands, Llanelltyd a Rhun Jones o'r Brithdir.
- am farw'r Bonwr Norman Jones, Trelew, a chydymdeimlwn â'i briod Neved Jones yn ei phrofedigaeth.
- a dymunwn adferiad buan i Shân Emlyn, Ysgrifennydd gweithgar Cymdeithas Cymry Ariannin, sydd newydd fynd i gartref nyrsio Bryn Mêl, Llandegfan, Ynys Môn.

# ???


Chwiliwch am yr atebion yn y papur hwn. Os anfonwch atom erbyn diwrnod olaf Ionawr 1998 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r ymgais gywir gyntaf a dynnir allan a gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad.*

1. Pwy oedd Begw?
2. Pwy sy'n anfodlon ar ormod o Saesneg?
3. Rhowch enw arall ar Eisteddfod.
4. Beth yw Caledfwlch?
5. Ym mhle y bydd Eisteddfod 1998?
6. Beth sy'n lwcus?
7. Pa bentref sydd yn gysylltiedig â Phorth Madryn?
8. Pwy sy'n gwylio ddydd a nos?
9. Beth oedd yn y parsel?
10. I ble'r aeth Wil i fyw?
11. Enwch Aelod Seneddol Plaid Cymru.
12. Pwy sy'n gweithio yn Swyddfa'r Post?
13. Bu'n Archdderwydd.
14. Pwy sy'n haeddu mawl?



Llun: *Yr Hen Wlad*

Mario Jones (Trelew), Alin Jones Ericsson (Trefelin) a Fernando Coronato (Porth Madryn) - rhai o'r myfyrwyr o'r Wladfa a ddaeth i Goleg Llanbedr yn ystod yr haf eleni.



Llun: *Yr Hen Wlad*

Irma a Ieuan Williams, Bryn Crwn, yng Nghymru yn ystod yr haf eleni.

# Ofergoelion

Ydi gweld cath ddu yn croesi'r ffordd yn golygu newyddion da neu lwc dda i chwi? Ydi gweld lleuad newydd trwy ffenestr yn beth anffodus? A oes gennych chwi arwyddion tywydd? A glywsoch chwi am hen, feddyginiaethau? A oes gan y brodorion a chenhedloedd eraill y Wladfa eu hofergoelion gwahanol i chwi?

Os gwyddoch am ofergoelion tebyg mae cyfle i chwi eu casglu a'u cofnodi neu i roi eich profiadau neu eich atgofion chwi eich hun am rai ohonynt ac efallai i gael gwobr am hynny os anfonwch hwy i'r gystadleuaeth ar gyfer pobl Y Wladfa yn Nhestunau Eisteddfod Genedlaethol Cymru y flwyddyn nesaf.

Dyma gyfle i gystadlu ac i gofnodi ar bapur fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl fanylion am fywyd y dyddiau gynt yn y Wladfa. Y dyddiad cau yw Ebrill 1 1998.